



# Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

2011 mccc 2

Nodiadau Esboniadol

# Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011

2011 nawm 2

Explanatory Notes

£5.75

# MESUR HAWLIAU PLANT A PHOBL IFANC (CYMRU) 2011

---

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r nodiadau esboniadol hyn yn ymwneud â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Ionawr 2011 ac a gymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor ar 16 Mawrth 2011. Mae'r nodiadau wedi eu paratoi gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cynorthwyo'r darllenydd i ddeall y Mesur. Nid ydynt yn rhan o'r Mesur nac wedi eu hategu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
2. Dylid darllen y nodiadau ar y cyd â'r Mesur. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod, yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur. Felly, pan fo'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad neu sylw ar adran neu ran o adran, nis rhoddir.
3. Mae'r Mesur yn rhoi effaith bellach mewn cyfraith ddomestig i ddarpariaethau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Protocolau Dewisol iddo.
4. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("y Confensiwn") yn gonfensiwn rhyngwladol sy'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant. Cymeradwywyd testun y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn gan Aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig ar 20 Tachwedd 1989.
5. Ar 16 Rhagfyr 1991, cadarnhaodd Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon y Confensiwn a daeth i rym yn y Deyrnas Unedig ar 15 Ionawr 1992.
6. Mae'r Deyrnas Unedig wedi cadarnhau hefyd ddau Brotocol Dewisol i'r Confensiwn. Mae'r cyntaf o'r rhain yn ymwneud â chynnwys plant mewn gwrthdrawiadau arfog, ac mae'r ail yn ymwneud â gwerthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.
7. Mae'n ofynnol o dan erthygl 44(1)(b) o'r Confensiwn i wledydd sydd wedi ei gadarnhau gyflwyno bob 5 mlynedd i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("y Pwyllgor") adroddiad sy'n rhoi manylion y cynnydd a wnaed ganddynt tuag at weithredu'n llawn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol a chaniateir i'r gwledydd hyn ymddangos gerbron y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor wedi ei sefydlu o dan erthygl 43(1) o'r Confensiwn at ddiben archwilio'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan Bartion Gwladwriaethau tuag at ei weithredu. Mae'r Pwyllgor wedi ei ffurfio o

# **RIGHTS OF CHILDREN AND YOUNG PERSONS (WALES) MEASURE 2011**

---

## **EXPLANATORY NOTES**

### **INTRODUCTION**

1. These explanatory notes relate to the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011, which was passed by the National Assembly for Wales on 18 January 2011 and approved by Her Majesty in Council on 16 March 2011. The notes have been prepared by the Welsh Assembly Government's Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills in order to assist the reader in understanding the Measure. They do not form part of the Measure and have not been endorsed by the National Assembly for Wales.
2. The notes should be read in conjunction with the Measure. They are not, and are not intended to be, a comprehensive description of the Measure. So where a section or part of a section does not seem to require any explanation or comment, none is given.
3. The Measure gives further effect in domestic law to the provisions of the United Nations Convention on the Rights of the Child and the Optional Protocols to it.
4. The United Nations Convention on the Rights of the Child ("the Convention") is an international convention setting out the civil, political, economic, social and cultural rights of children. The text of the Convention on the Rights of the Child was approved by the Member States of the United Nations on 20 November 1989.
5. On the 16 December 1991, the Government of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland ratified the Convention and it came into force in respect of the United Kingdom on 15 January 1992.
6. The United Kingdom has also ratified two Optional Protocols to the Convention. The first of these relates to the involvement of children in armed conflict, and the second relates to the sale of children, child prostitution and child pornography.
7. Countries that have ratified the Convention are required by article 44(1)(b) of it to report to, and may appear before, the United Nations Committee on the Rights of the Child ("the Committee") every 5 years providing details of their progress towards full implementation of the Convention and its Optional Protocols. The Committee is established under article 43(1) of the Convention for the purpose of examining the progress made by State Parties towards its implementation. The Committee is composed of ten experts in the areas covered by the Convention, who are elected to the Committee by the States which are parties to the Convention.

ddeg arbenigwr yn y meysydd a gwmpesir gan y Confensiwn, a'r rheini'n arbenigwyr sydd wedi eu hethol i'r Pwyllgor gan y Gwladwriaethau sy'n bartïon i'r Confensiwn.

8. Yn Ionawr 2004, mabwysiadodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, y Confensiwn fel sail i ategu ei bolisiâu ynghylch plant a phobl ifanc 0 i 25 oed (h.y. gan gynnwys y rhai sy'n 25 oed) a thrwy hynny atgyfnerthodd y "Saith Nod Craidd" yr oedd wedi eu llunio yn 2002 ar gyfer plant a phobl ifanc ar sail y Confensiwn. Trosglwyddwyd y rhan fwyaf o swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Gweinidogion Cymru yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.
9. Wrth lunio ei pholisiâu ynghylch plant a phobl ifanc yng Nghymru mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfeirio at ddau grŵp oedran. Cyfeirir at blant sydd o dan 11 oed fel "plant", a chyfeirir at bobl sy'n 11 i 25 mlwydd oed fel "pobl ifanc". Yn y Mesur hwn cyfeirir at bobl sydd o dan 18 oed fel "plant", a chyfeirir at y rhai sy'n 18 i 24 mlwydd oed (h.y. gan gynnwys y rhai sy'n 24 oed) fel "pobl ifanc". Mabwysiadwyd y dull gweithredu hwn er mwyn bod yn gyson â'r Confensiwn ac â Mater 15.6 yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, y deilliodd y cymhwyster deddfwriaethol ar gyfer y Mesur hwn ohono.

## **SYLWEBAETH AR ADRANNAU**

### **Adran 1 - Dyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn**

10. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i ofynion -
  - (a) Rhan 1 o'r Confensiwn,
  - (b) erthyglau 1 i 7, ac eithrio erthygl 6(2), o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar gynnwys plant mewn gwrthdrawiadau arfog, ac
  - (c) erthyglau 1 i 10 o'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar werthu plant, puteindra plant a phornograffi plant.
11. Yn y nodiadau hyn, cyfeirir at y ddyletswydd hon fel "y ddyletswydd sylw dyledus", a chyfeirir at (a), (b) ac (c) uchod fel "Rhan I o'r Confensiwn a'i Brotocolau".
12. Bydd y ddyletswydd sylw dyledus yn gymwys o 1 Mai 2012 ymlaen. O 1 Mai 2012 hyd at a chan gynnwys 30 Ebrill 2014, dim ond i benderfyniadau Gweinidogion Cymru sy'n dod o fewn categorïau penodol y bydd y ddyletswydd sylw dyledus yn gymwys. Rhestrir y categorïau yn is-adran (3). Yna, o 1 Mai 2014 ymlaen, bydd y ddyletswydd sylw dyledus yn gymwys bob tro y bydd Gweinidogion Cymru'n arfer eu swyddogaethau.
13. Mae'r ddyletswydd sylw dyledus yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi'r pwys priodol yn holl amgylchiadau'r achos i Ran 1 o'r Confensiwn a'r Protocolau, gan eu cydbwysu â'r holl ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r penderfyniad sydd o dan sylw.

8. In January 2004, the National Assembly for Wales constituted under the Government of Wales Act 1998 adopted the Convention as the underpinning basis for its policies concerning children and young people aged 0 to 25 (i.e. including those aged 25) thus reinforcing “Seven Core Aims” it had developed in 2002 in respect of children and young people, based on the Convention. Most of the functions of the National Assembly for Wales constituted under the Government of Wales Act 1998 were transferred to the Welsh Ministers by the Government of Wales Act 2006. The Welsh Ministers are part of the Welsh Assembly Government.
9. When developing its policies concerning children and young people in Wales the Welsh Assembly Government makes reference to two age-groups. Children aged under 11 years old are referred to as “children”, and people aged 11 to 25 years are referred to as “young people”. In this Measure people aged under 18 are referred to as “children” and those aged 18 to 24 (i.e. including those aged 24) years are referred to as “young persons”. This approach has been adopted in order to be consistent with the Convention and with Matter 15.6 in Schedule 5 to the Government of Wales Act 2006, from which the legislative competence for this Measure is derived.

## **COMMENTARY ON SECTIONS**

### **Section 1 – Duty to have due regard to the Convention on the Rights of the Child**

10. This section places the Welsh Ministers under a duty to have due regard to the requirements of –
  - (a) Part 1 of the Convention,
  - (b) articles 1 to 7, excluding article 6(2), of the Optional Protocol to the Convention on the involvement of children in armed conflict, and
  - (c) articles 1 to 10 of the Optional Protocol to the Convention on the sale of children, child prostitution and child pornography.
11. In these notes, this duty is referred to as “the due regard duty”, and (a), (b) and (c) above are referred to as “Part I of the Convention and the Protocols”.
12. The due regard duty applies from 1 May 2012. From 1 May 2012, up to and including 30 April 2014, the due regard duty applies only to decisions of the Welsh Ministers falling within certain categories. The categories are listed in subsection (3). Then, from 1 May 2014, the due regard duty applies to all exercises by the Welsh Ministers of their functions.
13. The due regard duty requires the Welsh Ministers to give the weight that is appropriate in all the circumstances of the case to Part I of the Convention and the Protocols, balancing them against all the other factors that are relevant to the decision in question.

14. Dylid cyfeirio at adran 8 o'r Mesur a'r Atodlen i'r Mesur er mwyn canfod pa ddarpariaethau yn Rhan I o'r Confensiwn a'i Brotocolau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus iddynt.
15. Is-adran (1) - Effaith hon yw bod Gweinidogion Cymru, o 1 Mai 2014 ymlaen, yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd sylw dyledus wrth arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau.
16. Is-adran (2) - Effaith hon yw bod Gweinidogion Cymru, o 1 Mai 2012 hyd at a chan gynnwys 30 Ebrill 2014, yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd sylw dyledus wrth wneud unrhyw benderfyniad sy'n dod o fewn y categorïau o benderfyniadau a restrir yn is-adran (3).
17. Is-adran (3) - Mae hon yn rhestru'r categorïau o benderfyniadau y mae'r ddyletswydd sylw dyledus yn gymwys iddynt o 1 Mai 2012 hyd at a chan gynnwys 30 Ebrill 2014. Mae'r ddyletswydd sylw dyledus yn gymwys felly i unrhyw benderfyniad gan Weinidogion Cymru ynghylch -
  - (a) darpariaeth y bwriedir ei chynnwys mewn deddfiad;
  - (b) ffurfio polisi newydd;
  - (c) adolygu neu newid polisi presennol.
18. Mae paragraff (a) yn cwmpasu nid yn unig ddarpariaeth y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei chynnwys mewn deddfiad ond hefyd ddarpariaeth y mae rhywun arall yn bwriadu ei chynnwys mewn deddfiad. Caiff "deddfiad" ei ddiffinio yn adran 9 ac mae'n cwmpasu Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig, Mesurau Cynulliad a Deddfau Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan unrhyw un neu ragor o'r rhain. Felly, petai Gweinidogion Cymru yn penderfynu, er enghraifft, ar ba farn i'w mynegi wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch darpariaeth yr oedd y llywodraeth honno yn bwriadu ei chynnwys mewn Mesur yn Senedd y Deyrnas Unedig, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant wrth benderfynu beth oedd eu barn.
19. Yn yr un modd, mae paragraffau (b) ac (c) yn cwmpasu nid yn unig bolisiau Gweinidogion Cymru, ond hefyd bolisiau perthynol i eraill. Felly, petai Gweinidogion Cymru yn yn penderfynu, er enghraifft, ar ba farn i'w mynegi wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch polisi newydd arfaethedig y llywodraeth honno, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant wrth benderfynu beth oedd eu barn.
20. Is-adran (4) - Effaith hon yw bod cyfeiriadau yn y Mesur at ddyletswydd Gweinidogion Cymru o dan adran 1 yn golygu -
  - o ran y cyfnod o 1 Mai 2012 hyd at 30 Ebrill 2014, y ddyletswydd sylw dyledus yn is-adran (2) ac
  - o 1 Mai 2014 ymlaen, y ddyletswydd sylw dyledus yn is-adran (1).

14. Section 8 of the Measure and the Schedule to the Measure should be referred to in order to find the provisions of Part I of the Convention and the Protocols to which the Welsh Ministers must have due regard.
15. Subsection (1) - The effect of this is that, from 1 May 2014, the Welsh Ministers are subject to the due regard duty when exercising any of their functions.
16. Subsection (2) - The effect of this is that, from 1 May 2012 up to and including 30 April 2014, the Welsh Ministers are subject to the due regard duty when making any decision which falls within the categories of decision which are listed in subsection (3).
17. Subsection (3) - This lists the categories of decision to which the due regard duty applies from 1 May 2012 up to and including 30 April 2014. Therefore, the due regard duty applies to any decision by the Welsh Ministers about -
  - (a) provision proposed to be included in an enactment;
  - (b) formulation of a new policy;
  - (c) a review of or change to an existing policy.
18. Paragraph (a) covers not only provision which the Welsh Ministers are proposing to include in an enactment, but also provision which someone else is proposing to include in an enactment. "Enactment" is defined in section 9 and covers Acts of the United Kingdom Parliament, Assembly Measures and Assembly Acts and subordinate legislation made under any of those. Therefore, for example, if the Welsh Ministers were deciding what view to express to the United Kingdom Government about a provision which the latter was proposing to include in a United Kingdom Parliament Bill, the Welsh Ministers would be required to have due regard to the UNCRC in deciding what their view was.
19. Similarly, paragraphs (b) and (c) not only cover Welsh Ministers' policies, but also those of others. Therefore, for example, if the Welsh Ministers were deciding what view to express to the United Kingdom Government about a proposed new policy of the latter, the Welsh Ministers would be required to have due regard to the UNCRC in deciding what their view was.
20. Subsection (4) - The effect of this is that references in the Measure to the Welsh Ministers' duty under section 1 mean -
  - in respect of the period 1 May 2012 to 30 April 2014, the due regard duty in subsection (2) and
  - from 1 May 2014, the due regard duty in subsection (1).

21. Is-adran (5) - Mae hon yn peri bod Prif Weinidog Cymru pan fo'n gweithredu yn y swyddogaeth honno'n unig yn ddarostyngedig i'r un ddyletswydd sylw dyledus â Gweinidogion Cymru.
22. O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Prif Weinidog Cymru yn cyfrif fel un o Weinidogion Cymru a chaiff gyflawni unrhyw swyddogaeth sydd wedi ei rhoi i Weinidogion Cymru. Pan fo Prif Weinidog Cymru yn gweithredu fel un o Weinidogion Cymru mae'n ddarostyngedig i ddyletswydd sylw dyledus Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, mae rhai swyddogaethau sydd wedi eu rhoi i Brif Weinidog Cymru yn unig. Effaith is-adran (5) yw bod Prif Weinidog Cymru pan fo'n gweithredu yn y swyddogaeth honno'n unig yn ddarostyngedig i'r un ddyletswydd sylw dyledus â Gweinidogion Cymru.
23. Er enghraifft felly, petai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym Mehefin 2012 yn cydymffurfio â rhwymedigaeth statudol i ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru ynghylch darn o is-ddeddfwriaeth y mae'r llywodraeth honno yn bwriadu ei wneud, byddai penderfyniad Prif Weinidog Cymru ar sut i ymateb yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd sylw dyledus. Mae hyn oherwydd y byddai Prif Weinidog Cymru yn ddarostyngedig i'r un ddyletswydd sylw dyledus â Gweinidogion Cymru, fel y'i gosodir yn is-adran (2), i roi sylw dyledus i Ran 1 o'r Confensiwn a'r Protocolau wrth wneud penderfyniadau ynghylch darpariaethau y bwriedir eu cynnwys mewn deddfiad.
24. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i gyfeiriadau yn y Mesur at y ddyletswydd sylw dyledus gael eu dehongli mewn modd sy'n adlewyrchu'r ffaith bod Prif Weinidog Cymru yn ddarostyngedig i'r un ddyletswydd sylw dyledus â Gweinidogion Cymru.

## **Adran 2 -Cynllun y plant**

25. Is-adran (1) - Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud cynllun plant. Rhaid i'r cynllun osod y trefniadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, neu y bwriadant eu gwneud, er mwyn sicrhau eu bod hwy a Phrif Weinidog Cymru yn cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus.
26. Is-adran (2) - Mae hon yn gwneud darpariaeth ynghylch materion eraill y caniateir eu cynnwys yng nghynllun y plant. Caiff y cynllun ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau ar weithrediad y cynllun neu unrhyw fater arall a grybwyllir ynddo. Yn ychwanegol, caiff y cynllun bennu materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr adroddiadau hynny neu mewn adroddiadau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu cyhoeddi o dan adran 4(1) i esbonio sut y maent hwy a Phrif Weinidog Cymru wedi cydymffurfio â'r brif ddyletswydd.
27. Is-adran (3) - Mae hon yn caniatáu i'r cynllun gynnwys unrhyw faterion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn briodol.
28. Is-adran (4) - Mae hon yn gwneud darpariaeth ynghylch adolygu neu ail-wneud cynllun y plant. Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a ddylid adolygu neu ail-wneud y cynllun cyn pen chwe mis ar ôl i'r Pwyllgor wneud unrhyw awgrym neu argymhellad cyffredinol o dan erthygl 45(d) o'r Confensiwn, ar sail adroddiad a



21. Subsection (5) – This makes the First Minister when acting in that sole capacity subject to the same due regard duty as the Welsh Ministers.
22. Under the Government of Wales Act 2006, the First Minister counts as one of the Welsh Ministers and may carry out any function which has been conferred on the Welsh Ministers. When the First Minister is acting as one of the Welsh Ministers he is subject to the Welsh Ministers’ due regard duty. However, some functions are conferred on the First Minister alone. The effect of subsection (5) is that the First Minister is subject to the same due regard duty as the Welsh Ministers when he acts in that sole capacity.
23. Therefore, for example, if in June 2012 the UK Government was complying with a statutory obligation to consult the First Minister about a piece of subordinate legislation which it proposed to make, the First Minister’s decision about how to respond would be subject to the due regard duty. This is because the First Minister would be subject to the same duty as the Welsh Ministers, as set out in subsection (2), to have due regard to Part I of the Convention and the Protocols when making decisions about provision which it is proposed to include in an enactment.
24. Subsection (4) requires references in the Measure to the due regard duty to be read to reflect the fact that the First Minister is subject to the same due regard duty as the Welsh Ministers.

## **Section 2 – The children’s scheme**

25. Subsection (1) – This requires the Welsh Ministers to make a children’s scheme. The scheme must set out the arrangements that the Welsh Ministers have made, or propose to make, in order to ensure that they and the First Minister comply with the due regard duty.
26. Subsection (2) - This makes provision about other matters that may be included in the children’s scheme. The scheme may require the Welsh Ministers to publish reports on the operation of the scheme or on any other matter mentioned in it. In addition the scheme may specify matters which must be included in those reports or in reports which the Welsh Ministers must publish under section 4(1) to explain how they and the First Minister have complied with the main duty.
27. Subsection (3) – This allows the scheme to include any other matters that the Welsh Ministers consider appropriate.
28. Subsection (4) – This makes provision about revising or remaking the children’s scheme. The Welsh Ministers must consider whether to revise or remake the scheme within six months of the Committee making any suggestion or general recommendation under article 45(d) of the Convention, based on a report submitted to the Committee by the United Kingdom under its obligation in article 44(1)(b).

gyflwynir i'r Pwyllgor gan y Deyrnas Unedig o dan ei rhwymedigaeth yn erthygl 44(1)(b).

29. Is-adran (5) - Mae hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru adolygu neu ail-wneud cynllun y plant unrhyw bryd arall.
30. Is-adran (6) - Mae hon yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn adran 2.

### **Adran 3 - Llunio a chyhoeddi'r cynllun**

31. Is-adran (1) - Mae hon yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, wrth iddynt llunio, ail-wneud neu adolygu cynllun y plant roi sylw i'r dogfennau canlynol -

(i) adroddiadau'r Pwyllgor ar ei weithgareddau, y mae erthygl 44(5) o'r Confensiwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor eu cyflwyno bob dwy flynedd i Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig;

(ii) unrhyw astudiaethau am faterion penodol sy'n ymwneud â hawliau'r plentyn yr ymgwymerwyd â hwy gan Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig o dan erthygl 45(c) o'r Confensiwn, a

(iii) unrhyw ddogfennau eraill a ddyroddir gan y Pwyllgor sy'n ymwneud â rhoi'r Confensiwn neu'r Protocolau ar waith gan y Deyrnas Unedig, megis dogfennau sy'n ymwneud â'r Diwrnodau Trafod Cyffredinol.

32. Is-adran (2) - Mae hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw ddogfennau eraill (p'un a ddyroddir hwy gan y Pwyllgor ai peidio) neu faterion eraill sydd yn eu barn hwy yn berthnasol wrth baratoi, ail-wneud neu adolygu cynllun y plant.

33. Is-adran (3) - Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn gwneud neu ail-wneud cynllun y plant gyhoeddi'r cynllun ar ffurf ddrafft. Os ydynt yn adolygu'r cynllun rhaid iddynt gyhoeddi'r adolygiadau ar eu pennau eu hunain neu'r cynllun cyfan gan gynnwys yr adolygiadau hynny.

34. Is-adran (4) - Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymwneud ag -

(a) plant a phobl ifanc,

(b) Comisiynydd Plant Cymru

(c) y personau neu gyrff eraill y mae Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn briodol,

pan fyddant yn paratoi'r cynllun drafft, neu'r drafft o unrhyw newidiadau i'r cynllun, sydd i'w gyhoeddi o dan is-adran (3).

35. Is-adran (5) - Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn gwneud, ail-wneud neu adolygu cynllun y plant, ymgynghori â phobl benodol ynghylch y drafft. Rhaid iddynt ymgynghori â phlant a phobl ifanc, Comisiynydd Plant Cymru

29. Subsection (5) – This permits the Welsh Ministers to revise or remake the children’s scheme at any other time.
30. Subsection (6) – This defines terms used in section 2.

### **Section 3 – Preparation and publication of the scheme**

31. Subsection (1) – This provides that when preparing, remaking or revising the children’s scheme, the Welsh Ministers must have regard to the following documents–

(i) the Committee’s reports on its activities, which article 44(5) of the Convention requires the Committee to submit every two years to the General Assembly of the United Nations;

(ii) any studies on specific issues relating to the rights of the child which have been undertaken by the United Nations’ Secretary-General under article 45(c) of the Convention, and

(iii) any other documents issued by the Committee relating to implementation of the Convention or Protocols by the United Kingdom, such as documents relating to the General Days of Discussion.

32. Subsection (2) – This permits the Welsh Ministers to have regard to any other documents (whether or not issued by the Committee) or matters that they consider to be relevant when preparing, remaking or revising the children’s scheme.

33. Subsection (3) – This requires the Welsh Ministers, before making or remaking the children’s scheme, to publish the scheme in draft. If they are revising the scheme they must publish the revisions alone or the scheme as a whole with those revisions included.

34. Subsection (4) – This requires the Welsh Ministers to involve –

(a) children and young persons,

(b) the Children’s Commissioner for Wales, and

(c) such other persons or bodies as the Welsh Ministers consider appropriate,

when they are preparing the draft scheme, or the draft of any changes to the scheme, to be published under subsection (3).

35. Subsection (5) – This requires the Welsh Ministers, before making, remaking or revising the children’s scheme, to consult certain people on the draft. They must consult children and young people, the Children’s Commissioner for Wales and any other persons or bodies which the Welsh Ministers consider appropriate.

ac unrhyw bersonau neu gyrff eraill y mae Gweinidogion Cymru yn barnu eu bod yn briodol.

36. Is-adran (6) - Effaith yr is-adran hon yw bod rhaid i Weinidogion Cymru beidio â gwneud neu ail-wneud y cynllun oni bai bod drafft o'r hyn sydd i'w wneud neu i'w ail-wneud wedi ei osod gerbron y Cynulliad ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad. Rhaid i Weinidogion Cymru beidio ag adolygu'r cynllun oni bai bod yr adolygiadau ar eu pennau eu hunain wedi eu gosod gerbron y Cynulliad a'u cymeradwyo ganddo, neu fod y cynllun cyfan, gan gynnwys yr adolygiadau, wedi ei osod ger ei fron a'i gymeradwyo ganddo.
37. Is-adran (7) - Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod drafft o'r cynllun plant cyntaf gerbron y Cynulliad ar 31 Mawrth 2012 neu cyn hynny.
38. Is-adran (8) - Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r cynllun plant pan gaiff ei wneud a pha bryd bynnag y caiff ei ail-wneud. Pan fônt wedi adolygu'r cynllun, caniateir iddynt gyhoeddi'r adolygiadau ar eu pennau eu hunain neu'r cynllun cyfan gan gynnwys yr adolygiadau.
39. Is-adran (9) - Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron y Cynulliad y ddogfen y maent wedi ei chyhoeddi o dan is-adran (8), p'un ai'r cynllun cyfan yw honno ynteu adolygiadau i'r cynllun.
40. Is-adran (10) - Mae hon yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn adran 3.

#### **Adran 4 - Adroddiadau**

41. Is-adran (1) - Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau ynghylch sut y maent hwy a Phrif Weinidog Cymru wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus. Rhaid i'w hadroddiad cyntaf gael ei gyhoeddi ar neu cyn 31 Ionawr 2013. Ar ôl hynny, rhaid iddynt gyhoeddi adroddiad bob pum mlynedd.
42. Bydd yr adroddiadau'n ymwneud â chydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus fel y'i gosodir yn adran 1(1), neu fel y'i gosodir yn adran 1(2), neu'r ddau, yn dibynnu ar pa gyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad. Bydd yr adroddiad cyntaf, sydd i'w gyhoeddi ar 31 Ionawr 2013 neu cyn hynny, yn cwmpasu cyfnod pan y ddyletswydd sylw dyledus fel y'i gosodir yn adran 1(2) sy'n gymwys; â chydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus honno y bydd yr adroddiad felly yn ymwneud.
43. Yn ystod y pum mlynedd ddilynol, y ddyletswydd sylw dyledus fel y'i gosodir yn adran 1(2) fydd yn gymwys dros ran gyntaf y cyfnod hwnnw, tra bydd y ddyletswydd sylw dyledus fel y'i gosodir yn adran 1(1) yn gymwys dros ail ran y cyfnod hwnnw. Bydd adroddiad sy'n cwmpasu'r pum mlynedd hynny felly yn ymwneud â chydymffurfio'n unol â'r sefyllfa honno.
44. Mae amseriad yr adroddiadau hyn wedi ei fwriadu i gyd-fynd ag amseriad adroddiadau'r Deyrnas Unedig i'r Pwyllgor ar y cynnydd y mae'r Deyrnas Unedig wedi ei wneud tuag at sicrhau'r hawliau sydd wedi eu cynnwys yn narpariaethau'r Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol. O dan Erthygl 44(1)(b) o'r Confensiwn, mae'n

36. Subsection (6) – The effect of this subsection is that the Welsh Ministers must not make or remake the scheme unless a draft of what is to be made or remade has been laid before the Assembly and has been approved by a resolution of the Assembly. The Welsh Ministers must not revise the scheme unless either the revisions alone, or the whole scheme with the revisions included, has been laid before and approved by the Assembly.
37. Subsection (7) – This requires the Welsh Ministers to lay a draft of the first children’s scheme before the Assembly on or before 31 March 2012.
38. Subsection (8) – This requires the Welsh Ministers to publish the children’s scheme when it is made and whenever it is remade. Where they have revised the scheme they must publish the revisions alone or the whole scheme with the revisions included.
39. Subsection (9) – This requires the Welsh Ministers to lay before the Assembly the document they have published under subsection (8), whether that be the whole scheme or revisions to the scheme.
40. Subsection (10) – This defines terms used in section 3.

#### **Section 4 – Reports**

41. Subsection (1) – This requires the Welsh Ministers to publish reports about how they and the First Minister have complied with the due regard duty. Their first report must be published on or before 31 January 2013. After that, they must publish a report every five years.
42. Reports will deal with compliance with the due regard duty as set out in section 1(1), or as set out in section 1(2), or both, depending on the period which the report covers. The first report, to be published on or before 31 January 2013, will cover a period when the due regard duty as set out in section 1(2) applies; the report will therefore deal with compliance with that due regard duty.
43. During the following five years, the due regard duty as set out in section 1(2) will apply for the first part of that period, while the due regard duty as set out in section 1(1) will apply for the second part of that period. Therefore, a report covering those five years will deal with compliance in accordance with that position.
44. The timing of these reports is designed to fit in with the timing of the United Kingdom’s reports to the Committee on the progress the United Kingdom has made towards achieving the rights contained in the provisions of the Convention and its Optional Protocols. Under Article 44 (1)(b) of the Convention, the United Kingdom has to report to the Committee every five years. The children’s scheme may specify that the Welsh Ministers are to publish their reports at longer or shorter intervals

rhaid i'r Deyrnas Unedig gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor bob pum mlynedd. Caiff cynllun y plant bennu bod Gweinidogion Cymru i gyhoeddi eu hadroddiadau o fewn ysbeidiau hwy neu rai byrrach.

45. Is-adran (2) - Effaith hon, os yw cynllun y plant wedi ei gwneud yn ofynnol (fel y caiff ei gwneud o dan adran 2(2)(a)), i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar weithrediad y cynllun neu unrhyw fater a grybwyllir ynddo, yw bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad hwnnw.
46. Is-adran (3) - Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron y Cynulliad adroddiadau y byddant yn eu cyhoeddi o dan adrannau 4(1) neu 4(2).

### **Adran 5 - Dyletswydd i hybu gwybodaeth o'r Confensiwn**

47. Mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau y maent yn barnu eu bod yn briodol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o'r Confensiwn a'r Protocolau Dewisol. Mae'r ddarpariaeth yn egluro bod y "cyhoedd" yn cynnwys plant.
48. Mae'r ddarpariaeth hon wedi ei seilio i raddau helaeth ar erthygl 42 o'r Confensiwn ac erthygl 6(2) o'r Protocol Dewisol ar gynnwys plant mewn gwrthdrawiadau arfog, y mae Gwladwriaethau wedi ymrwymo ynddynt i wneud egwyddorion a darpariaethau'r Confensiwn a'r Protocol hwnnw yn adnabyddus i lawer o oedolion a phlant. Er hynny, mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hybu dealltwriaeth, yn ogystal â gwybodaeth, ymhlith y cyhoedd.
49. Dylid cyfeirio at adran 1(1), adran 8, a'r Atodlen i'r Mesur er mwyn canfod cynnwys y darpariaethau sydd yn y Confensiwn a'i Brotocolau Dewisol y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd amdanynt.

### **Adran 6 - Pŵer i ddiwygio deddfwriaeth etc**

